# MEMORANDWM CYD-DDEALLTWRIAETH

## Rhwng Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru, Senedd Cymru a'r Swyddfa Gyfathrebiadau

## Cwmpas a Phwrpas

1. Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn ymwneud â'r berthynas rhwng Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru, Senedd Cymru a'r Swyddfa Gyfathrebiadau (Ofcom) sy'n deillio o Gytundeb Dydd Gŵyl Dewi a Deddf Cymru 2017 yn dilyn hynny.

2. Mae'r memorandwm yn ymrwymo Ofcom i ymgynghori â Llywodraeth Cymru ynghylch ei Gynllun Gwaith drafft, ac yn nodi'r broses i Weinidogion Cymru ei dilyn wrth benodi aelod i Fwrdd Ofcom. Mae pob parti wedi ymrwymo i weithio'n adeiladol gyda'i gilydd i gyflawni'r dibenion a nodir yn y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth.

## Cefndir

3. Cafodd y Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru, neu Gomisiwn Silk, ei sefydlu gan Lywodraeth y DU yn 2011 i edrych ar ddyfodol y setliad datganoli yng Nghymru. Roedd Rhan II adroddiad y Comisiwn, 'Grymuso a Chyfrifoldeb: Pwerau Deddfwriaethol i Gryfhau Cymru', a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2014[1], yn gwneud nifer o argymhellion mewn cysylltiad â darlledu. Er bod yr adroddiad wedi dod i'r casgliad nad oedd achos i ddatganoli'r gwaith o reoleiddio darlledu, gwnaeth gynnig penodol mewn cysylltiad ag Ofcom:

   *A.22 Dylai buddiannau Cymru gael eu cynrychioli ar fwrdd Ofcom drwy aelod o'r bwrdd â chyfrifoldeb penodol dros gynrychioli Cymru.*

4. Nod yr argymhelliad hwn yw cryfhau cyfraniad sefydliadau cynrychioladol a'r cyhoedd yng Nghymru i'r gwaith o ddatblygu polisïau Ofcom ar draws ei gylch gwaith cyfan ar lefel y DU. Yn dilyn Siarter Frenhinol newydd[2] y BBC, mae'r cylch gwaith hwn hefyd yn cynnwys rheoleiddio'r BBC yn ogystal â dyletswyddau presennol Ofcom yn rheoleiddio'r Darlledwyr Gwasanaethau Cyhoeddus eraill.

5. Ar ôl cyhoeddi adroddiad Silk, lansiodd Llywodraeth y DU adolygiad o'r pwerau deddfwriaethol sy'n berthnasol i Gymru, a gafodd ei alw'n broses Dydd Gŵyl Dewi. Arweiniodd hyn at gyhoeddi Papur Gorchymyn gan Lywodraeth y DU ym mis Chwefror 2015, 'Pwerau at bwrpas: Tuag at setliad datganoli sy'n para i Gymru'[3], a oedd yn amlinellu sut byddai argymhellion Comisiwn Silk yn cael eu rhoi ar waith. Mae paragraffau 2.8.5 - 2.8.8 yn amlinellu ymrwymiad y Llywodraeth i weithredu argymhellion Comisiwn Silk, ac ymrwymiadau eraill a wnaeth Llywodraeth y DU, mewn cysylltiad ag Ofcom. Mae'r rhain fwy neu lai'n gyson â'r trefniadau a nodir yng Nghytundeb Comisiwn Smith[4], ar ddatganoli

[1] https://www.gov.uk/government/publications/empowerment-and-responsibility-legislative-powers-to-strengthen-wales.cy
[2] https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/577829/57964_CM_9365_Charter_Accessible.pdf
[3] https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/408587/47683_CM9020_ENGLISH.pdf
[4] http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20151202171017/https://www.gov.uk/government/uploads/

rhagor o bwerau i'r Alban.

6. Mae Deddf Cymru 2017[5]yn rhoi’r mesurau hyn ar waith:

- Mae adran 68 yn diwygio Deddf y Swyddfa Gyfathrebiadau 2002 i roi’r pŵer i Weinidogion Cymru benodi un aelod o Fwrdd Ofcom sy’n gallu cynrychioli buddiannau Cymru. Cyn unrhyw benodiad, mae’n ofynnol i Lywodraeth Cymru ymgynghori â’r Ysgrifennydd Gwladol. Bydd hyn yn cefnogi’r Ysgrifennydd Gwladol yn ei rôl i sicrhau y bydd y Bwrdd yn gweithredu’n effeithiol fel cyfangorff. Bydd y penodiad yn amodol ar y fframwaith rheoleiddio presennol ar gyfer penodi i fyrddau cyrff cyhoeddus, a nodir yn y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd gan y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus. Bydd gan y sawl sy’n cael ei benodi yr un cyfrifoldebau ar lefel y DU ag aelodau anweithredol eraill Ofcom.
- Mae adran 68 hefyd yn diwygio Deddf y Swyddfa Gyfathrebiadau 2002 i’w gwneud yn ofynnol i’r Rheolwr a’r Archwilydd Cyffredinol anfon copi o ddatganiad cyfrifon Ofcom at Weinidogion Cymru i’w osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac i’w gwneud yn ofynnol i Ofcom anfon copi o’i adroddiad blynyddol at Weinidogion Cymru i’w osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

7. Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yw’r ffordd orau o ddarparu eglurder a sicrwydd ynghylch sut yr ymgynghorir â’r gwahanol bartïon ynghylch pennu blaenoriaethau strategol Ofcom. Y rheswm am hyn yw, oherwydd bod Ofcom yn annibynnol ar y Llywodraeth, nid yw’n bosibl rhoi sail statudol ar gyfer rôl ymgynghori ffurfiol i Lywodraeth Cymru na Senedd Cymru.

**Partïon**

- Yr Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg (DSIT)
- Y Swyddfa Gyfathrebiadau (“Ofcom”)
- Llywodraeth Cymru
- Senedd Cymru

**Ymrwymiadau**

**Rôl ymgynghori ffurfiol i Lywodraeth Cymru a Senedd Cymru o ran pennu’r blaenoriaethau strategol ar gyfer Ofcom mewn perthynas â’i weithgareddau yng Nghymru.**

8. Bob blwyddyn, mae Ofcom yn cyhoeddi Cynllun Gwaith sy’n nodi ei flaenoriaethau ac yn disgrifio'r gwaith arall y bydd yn ei wneud yn ystod y flwyddyn i ddod.

9. Bydd y broses ar gyfer ymgynghori’n ffurfiol â Llywodraeth Cymru a Senedd Cymru wrth lunio Cynllun Gwaith Ofcom fel a ganlyn:

- Bydd Ofcom yn ymgynghori â Llywodraeth Cymru ac â phwyllgorau priodol Senedd Cymru ar ei Gynllun Gwaith drafft ar ôl iddo gael ei gyhoeddi.
- Bydd Ofcom yn ystyried unrhyw sylwadau gan Lywodraeth Cymru (Gweinidogion a Swyddogion), a phwyllgorau priodol Senedd Cymru drwy’r broses hon wrth lunio ei

system/uploads/attachment_data/file/397079/Scotland_EnduringSettlement_acc.pdf

[5] Cafodd y Ddeddf Gydsyniad Brenhinol ar 31 Ionawr 2017

Gynllun Gwaith;
- Bydd Ofcom yn anfon ei Gynllun Gwaith terfynol at weinidogion Llywodraeth Cymru a phwyllgorau perthnasol Senedd Cymru yn amlinellu sut yr oedd wedi pennu ei flaenoriaethau, gan gyfeirio at y prif faterion a godwyd yn ystod y broses ymgynghori flaenorol.

**Pŵer Gweinidogion Cymru i benodi aelod i Fwrdd Ofcom**

10. Mae Adran 1 o Ddeddf y Swyddfa Gyfathrebiadau 2002, fel y'i diwygiwyd gan adran 68 o Ddeddf Cymru 2017, yn darparu bod gan Weinidogion Cymru y pŵer i benodi aelod o Fwrdd Ofcom a rhaid iddynt ymgynghori â'r Ysgrifennydd Gwladol cyn gwneud hynny. Mae rhagor o ganllawiau y cytunwyd arnynt ar weithredu'r broses benodi i'w gweld yn Atodiad 1.

**Adroddiad blynyddol a chyfrifon**

11. Cyflwynir Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol Ofcom i Senedd Cymru a Senedd y DU yn unol â pharagraffau 11 a 12 yr Atodlen i Ddeddf y Swyddfa Gyfathrebiadau 2002. Mae'n rhaid i Ofcom anfon ei gyfrifon at yr Ysgrifennydd Gwladol a'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol. Bydd Gweinidogion Cymru yn gosod unrhyw adroddiad y mae'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol yn ei anfon atynt gerbron Senedd Cymru. Bydd Ofcom yn anfon copi o'i Adroddiad Blynyddol at yr Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru a fydd yn ei osod gerbron Senedd Cymru a Senedd y DU yn y drefn honno.

**Penodiadau eraill Ofcom**

12. O dan adran 17 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003, mae angen cymeradwyaeth yr Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer penodiadau i'r Panel Defnyddwyr Gwasanaethau Cyfathrebu. Yng nghyswllt yr aelod dros Gymru, bydd Ofcom hefyd yn ymgynghori â Llywodraeth Cymru ac yn sicrhau'r gymeradwyaeth ofynnol gan yr Ysgrifennydd Gwladol wrth wneud y penodiad terfynol.

**Ofcom yn ymddangos gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac yn rhoi adroddiadau iddo**

13. Mae adran 37 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn darparu y caiff Senedd Cymru ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson fod yn bresennol yn ei thrafodion, at ddibenion rhoi tystiolaeth mewn perthynas ag unrhyw fater sy'n berthnasol i arfer unrhyw rai o'u swyddogaethau gan Weinidogion Cymru. Mae hyn felly'n cynnwys Ofcom mewn perthynas â chyflawni ei swyddogaethau yng Nghymru. Mae Ofcom yn cael gwahoddiadau i roi tystiolaeth i Bwyllgorau Senedd Cymru drwy ddangos tystiolaeth ddogfennol a thrwy ymddangos yn bersonol. Mae Ofcom yn croesawu'r gwahoddiadau hyn.

**Cyfarfodydd**


14. Bydd cyfarfodydd ar wahân rhwng Ofcom a Gweinidogion Cymru; a rhwng Ofcom a Gweinidogion Swyddfa Cymru. Bydd y rhain yn digwydd o leiaf unwaith y flwyddyn.

15. Bydd cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cynnal fel sy'n briodol yn ystod y flwyddyn rhwng Ofcom a Llywodraeth Cymru; a rhwng Ofcom a Swyddfa Cymru ar lefel swyddogol. Cynhelir cyfarfod rhwng Ofcom a swyddogion Llywodraeth Cymru ddechrau'r hydref i

drafod blaenoriaethau strategol perthnasol pob sefydliad ar gyfer y flwyddyn i ddod. Cydnabyddir y bydd ymgysylltu mwy anffurfiol ar lefel swyddogol rhwng Llywodraeth Cymru ac Ofcom ynghylch pynciau penodol yn parhau ac na fydd y cyfarfodydd a ragwelir uchod yn cyfyngu ar hynny.

16. Mae’r Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg, Ofcom a Llywodraeth Cymru yn cytuno y bydd y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn cael ei adolygu’n gyfnodol, ar lefel swyddogol, ac na ddylai’r cyfnod rhwng adolygiadau fod ddim hwy na dwy flynedd.

**Llofnodion**

| | |
|---|---|
|  *(Dros ac ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol dros Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg.)* |  *(Dros ac ar ran Ofcom)* |
|  Gweinidog yr Economi<br><br>*(Dros ac ar ran Llywodraeth Cymru)* |  Dirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth<br><br>*(Dros ac ar ran Llywodraeth Cymru)* |

**Atodiad 1**

**Penodi aelod o Fwrdd Ofcom gan Weinidogion Cymru**

1. Bydd Gweinidogion Cymru yn penodi Aelod o Fwrdd Ofcom ar ôl ymgynghori â'r Ysgrifennydd Gwladol.

2. Penodir yr Aelod dros Gymru yn unol â'r Cod Llywodraethu ar Benodiadau Cyhoeddus (2016, neu'r fersiwn ddiweddaraf).

3. Ar ddechrau proses benodi, bydd Llywodraeth Cymru yn cwrdd â Chadeirydd Ofcom a/neu ei swyddogion i gytuno ar y meini prawf allweddol ar gyfer y penodiad, gan gynnwys y sgiliau, yr wybodaeth a'r profiad sy'n ofynnol gan yr unigolyn.

4. Mae'r partïon yn cydnabod y bydd gan unrhyw berson a benodir felly, fel aelod o Fwrdd Ofcom, yr un cyfrifoldebau ar lefel y DU â holl Aelodau anweithredol eraill y Bwrdd.

5. Bydd Ofcom a Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'i gilydd i gytuno ar y math o hysbysebu, proses chwilio ac amserlen ar gyfer y penodiad newydd (gydag Ofcom yn ysgwyddo'r costau). Rhoddir gwybod i'r Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg am fanyleb y rôl, manylion am gyfansoddiad y Panel Asesu Cynghorol a'r cynlluniau ar gyfer hysbysebu cyn cyhoeddi'r hysbyseb.

6. Bydd Panel Asesu Cynghorol yn cael ei sefydlu yn unol â'r Cod Llywodraethu a bydd yn cynnwys Cadeirydd a enwebir gan Lywodraeth Cymru, Aelod Annibynnol o'r Panel a Chadeirydd Ofcom o leiaf.

7. Bydd y Panel Asesu Cynghorol yn cytuno ar y broses ar gyfer didoli ymgeiswyr a'r amserlen a'r broses ar gyfer cyfweld yr ymgeiswyr sydd ar y rhestr fer.

8. Yn dilyn y cyfweliadau, bydd y Panel Asesu Cynghorol yn gwneud argymhelliad i Weinidogion Cymru ynghylch yr unigolyn neu'r unigolion y mae'r Panel yn credu sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer y penodiad. Rhaid cyflwyno enwau pob ymgeisydd y gellir ei benodi i'r Gweinidogion.

9. Bydd Gweinidogion Cymru yn gwneud y penodiad yn unol â'r Cod Llywodraethu ar Benodiadau Cyhoeddus a byddant yn ei ddogfennu'n ffurfiol gyda'r ymgeisydd llwyddiannus. Byddant yn gwneud hyn ar ôl ymgynghori â'r Ysgrifennydd Gwladol.